

RHWYDWAITH SEREN

Cefnogi Myfyrwyr Disgleiriaf Cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Yr hanes hyd yn hyn

Yr hanes hyd yn hyn

Gweledigaeth cyn Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Paul Murphy AS, bellach yr Arglwydd Murphy o Dorfaen, oedd Rhwydwaith Seren. Cafodd y rhwydwaith ei sefydlu yn 2014 i gynnig cefnogaeth i ddisgyblion ac athrawon er mwyn sicrhau bod mwy o fyfyrwyr yn cyflawni eu potensial academiaidd ac yn ennill lle ym mhrifysgolion gorau'r DU.

Yn y lle cyntaf, cafodd tair canolfan beilot eu sefydlu mewn gwahanol ranbarthau, ac mae'r rhwydwaith wedi tyfu'n gyflym. Erbyn dechrau blwyddyn academiaidd 2016-17, bydd y rhwydwaith wedi ehangu i 11 canolfan, gyda phresenoldeb drwy Gymru gyfan. Byddant yn cynorthwyo mwy na 2000 o fyfyrwyr i gyrraedd eu potensial academiaidd.

Ar ddechrau pob blwyddyn academiaidd, mae'r myfyrwyr disgleiriaf a mwyaf ymroddedig, sydd wedi cael canlyniadau TGAU rhagorol, yn derbyn gwahoddiad i fynychu eu canolfan ranbarthol.

Dros y tudalennau nesaf, gallwch weld sut mae'r rhwydwaith wedi cefnogi dyheadau'r myfyrwyr am y dyfodol.

Canolfannau Rhwydwaith Seren

- | | |
|--------------------------------|---|
| 1 Sir y Fflint a Wrecsam | 7 Castell-nedd Port Talbot, Powys a Phen-y-Bont ar Ogwr |
| 2 Abertawe | 8 Conwy a Sir Ddinbych |
| 3 Rhondda Cynon Taf & Merthyr | 9 Gwynedd ac Ynys |
| 4 Tudful Consortia EAS | 10 Môn Ceredigion |
| 5 Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin | 11 Bro Morgannwg |
| 6 Caerdydd | |



Cyfle i gyfarfod rhai o fyfyrwyr disgleiriaf Seren



Jessica Berry

Mae Jessica Berry yn ddisgybl yn Ysgol Gyfun Treorci ac mae hi'n gobeithio astudio cardioleg. Llwyddodd i gael lle ar Rwydwaith Seren ar ôl cael tair A-seren a 9 A yn ei chanlyniadau TGAU – er gwaethaf salwch yn ystod yr arholiadau. Meddai Jessica, sy'n dod o'r Rhondda, "Mae Rhwydwaith Seren yn gyffrous iawn. Mae cael fy newis wedi fy ngwneud yn fwy penderfynol o wneud yn dda yn fy Lefel A a rhoi'r cyfle gorau posibl i fi gael fy nerbyn i un o fy newisiadau cyntaf o brifysgolion."

Myles Davies

Mae Myles Davies wrthi'n astudio ar gyfer Safon Uwch ym Mhorth Dysgu Blaenau Gwent. Enillodd le ar Rwydwaith Seren ar ôl cael cyfuniad o raddau A seren ac A yn ei 14 pwnc TGAU. Meddai: "Roedd yn deimlad mor braf cael fy newis fel un o fyfyrwyr disgleiriaf Cymru. Mae cyfarfod myfyrwyr sydd â meddylfryd tebyg i mi a chlywed gan bobl sydd wedi mynychu prifysgolion blaenllaw wedi fy ngwneud yn fwy brwdfrydig am y dyfodol." Mae Myles yn bwriadu gwneud cais i astudio meddygaeth ym mhrifysgol Caergrawnt.




Ryan St. Amand

Ymunodd Ryan St. Amand, sy'n dod o Drefynwy, â Rhwydwaith Seren ar ôl cael saith A a thri B yn ei ganlyniadau TGAU yn yr haf. Meddai: "Dw i wrth fy modd gyda jazz a theatr gerddorol, felly mae'r prifysgolion dw i eisiau mynd iddyn nhw i gyd yn rhoi pwyslais ar ddrama. Mae Seren yn rhoi cyfle i mi ymweld â llawer o wahanol brifysgolion, gweld sut maen nhw'n gwneud pethau a chael gwybod mwy am wahanol gyrsgiau. Fyddai dim modd dod o hyd i bopeth ar y we, felly mae bod yn rhan o'r rhwydwaith eisoes wedi bod yn help mawr."

Jodie Jeffs

Mae Jodie Jeffs yn dod o Marford ger Wrecsam. Ymunodd â Rhwydwaith Seren ar ôl cael wyth A seren a dwy A yn ei chanlyniadau TGAU yn Darland High School. Mae hi bellach yn gweithio tuag at Safon Uwch yng Ngholeg Cambria lâl ac yn gobeithio astudio newyddiaduraeth neu'r gyfraith yn y brifysgol. Meddai Jodie: "Mae'n anrhydedd cael fy nghyfri'n un o fyfyrwyr gorau'r ardal, ac mae'n dda o beth bod rhwydwaith ar gael i'm cefnogi ac i droi ato os oes angen help arnaf wrth wneud cais i'r brifysgol."



Katie Thorpe

Cafodd Katie Thorpe o Gaerdydd wahoddiad i ymuno â Rhwydwaith Seren ar ôl cael wyth A seren a phedair A yn ei chanlyniadau TGAU yn Ysgol Gyfun Radyr. Mae hi'n gobeithio astudio naill ai hanes neu feddygaeth yn y brifysgol. Meddai Katie: "Trwy gymryd rhan yng ngweithdai Seren gydag academyddion o rai o brifysgolion gorau'r DU, dw i'n gobeithio cael blas o ddysgu mewn prifysgol cyn mynd, er mwyn i mi wybod beth i'w ddisgwyl a sut i addasu ar ôl cyrraedd."



Megan Howells

Ymunodd Megan Howells o Ferthyr â Rhwydwaith Seren ar ôl llwyddiant ysgubol yn ei chanlyniadau TGAU yn Ysgol Uwchradd Gatholig yr Esgob Hedley. Mae hi bellach yn astudio yng Ngholeg y Cymoedd ac yn bwriadu astudio'r gyfraith neu wleidyddiaeth yn y brifysgol. Ei uchelgais yw bod yn AS. Dywedodd Megan: "Dw i'n disgwyl i'r rhwydwaith roi cyfle i mi gyfarfod arbenigwyr a'm helpu i baratoi ar gyfer y broses o wneud cais i brifysgol a chael cyfweiliad."


Seren Peregrine

Mae Seren Peregrine yn dod o Bwlch ym Mhowys ac yn ddisgybl yn Ysgol Uwchradd Crucywel. Ymunodd â Rhwydwaith Seren ar ôl cael cyfuniad o raddau A seren ac A yn ei 13 pwnc TGAU. Mae hi'n gobeithio defnyddio'r gefnogaeth y mae Seren yn ei rhoi i'w helpu i benderfynu pa gwrs a phrifysgol fyddai'n gweddu iddi orau. Meddai: "Dw i mor falch bod y rhwydwaith yma'n bodoli achos dw i ddim yn hollol sicr beth dw i eisiau ei wneud. Mae'n gysur gwybod bod help ar gael ar adeg sy'n gallu peri cryn ddryswch."



Stephen Hughes

Mae Stephen Hughes yn dod o Lanelli ac ymunodd â Rhwydwaith Seren ar ôl cael 10 A seren a hanner yn ei bynciau TGAU. Ei fwriad nawr yw gwireddu ei uchelgais o astudio daearyddiaeth yn Rhydychen. Meddai: "Dw i eisiau gosod nod uchel i mi fy hun a Rhydychen yw'r nod hwnnw. Mae cael lle ar Rwydwaith Seren o fudd mawr i mi gan ei fod yn cynnig adnoddau rhagorol a hynny'n agos i adre. Roeddwn o'n ymwybodol o brifysgol Rhydychen ond dw i nawr yn derbyn cymorth ymarferol a fydd yn fy helpu i gyrraedd yno gobeithio."



Beth allwch chi ei ddisgwyl

Byddwch yn elwa mewn sawl ffordd o fod yn aelod o Rwydwaith Seren. Unwaith mae'ch talent academiaidd wedi ei gydnabod yn swyddogol, bydd cyfle i chi:

- Ymweld â champysau prifysgolion blaenllaw
- Datblygu'ch sgiliau pwnc i'r lefel nesaf gyda chefnogaeth addysgu arbenigol
- Ehangu'ch gwybodaeth yn bellach na'r cwricwlwm Safon Uwch er mwyn denu'r prifysgolion gorau
- Cyfarfod y goreuon academiaidd o brifysgolion gorau'r DU a derbyn cyngor a chefnogaeth bersonol wyneb yn wyneb
- Cymryd rhan mewn gweithdai gyda myfyrwyr talentog eraill
- Derbyn cyngor ymarferol ar wneud cais am le mewn prifysgol a pharatoi ar gyfer cyfweiliad
- Meithrin cysylltiadau a chyfeillgarwch gyda phobl eraill sy'n gobeithio cyflawni eu potensial academiaidd
- Derbyn cyngor arbenigol ar ysgrifennu datganiadau personol a chwblhau ceisiadau



Y bobl sy'n gyfrifol am y canolfannau cynnar

Mae 11 canolfan Rhwydwaith Seren yn bartneriaethau rhwng ysgolion uwchradd a cholegau, a gefnogir gan lywodraeth leol, Llywodraeth Cymru a phrifysgolion blaenllaw. Mae'r sefydliadau partner yn cydweithio'n agos i ddatblygu rhaglen gymorth i'r bobl ifanc ddisgleiriaf yn y rhanbarth. Mae pob canolfan yn cael ei harwain gan gydlynnydd canolfan; unigolion hynod brofiadol sy'n dod o wahanol gefndiroedd addysgu. Dyma rai o gydlynwyr y canolfannau:



Siân Farquharson
Consortia EAS
sian.farquharson@sewalesas.org.uk

Mae Siân wedi bod yn gweithio ym maes addysg ôl-16 ers dros 20 mlynedd, ac mae hi nawr yn rhan o Wasanaeth Cyflawni Addysg De Ddwyrain Cymru. Meddai: "Mae llawer o amrywiaeth yn y De-ddwyrain, sy'n creu tapestri cyfoethog o ddiwylliannau, agweddau a dyheadau ymysg ein pobl ifanc. Trwy ddod â myfyrwyr Seren at ei gilydd, rydym ni'n gwybod y byddant yn codi dyheadau ei gilydd ac yn rhannu syniadau, uchelgeisiau a chyfleoedd i gynyddu nifer y llefydd sy'n cael eu cynnig gan brifysgolion gorau'r DU. Mae prifysgolion wedi ymateb yn gadarnhaol wrth gynnig cefnogaeth i raglen Seren yn y De-ddwyrain, ac rydym ni'n falch iawn eu bod yn rhan o'r hyn a fydd gobeithio'n berthynas tymor hir ac a fydd yn fanteisiol i lawer o fyfyrwyr ein hysgolion a'n colegau."



Graham Kelly
Sir y Fflint a Wrecsam
hecsl@hecsl.co.uk

Graddiodd Graham o Brifysgol Caerdydd a bu'n ddarlithydd yno. Yn 2004, sefydlodd gwmni ymgynghori yn cynnig cyngor ar sut i gael lle mewn prifysgol. Meddai: "Rydym ni'n credu bod Seren yn cynnig cyfle i godi dyheadau myfyrwyr peniog. Rydym ni'n gobeithio y gallwn ni helpu myfyrwyr i ddeall nad yw cael cynnig lle yn Rhydychen a Chaergrawnt y tu hwnt i'w gafael. Trwy gynnig cyfres o weithgareddau sy'n ymestyn ac yn herio i fyfyrwyr Seren trwy gydol y flwyddyn, rydym ni'n eu hannog nhw i ddatblygu meddwl annibynnol ac i fynegi eu barn ar amrywiaeth o bynciau. Bydd hyn yn golygu eu bod yn fwy hyderus mewn cyfweiliadau prifysgol ac wrth ddechrau eu hastudiaethau."




Stephen Parry-Jones
RhCT a Merthyr
stephen.parry-jones@rctcbc.gov.uk

Bu Stephen yn fyfyrwr hanes yn Rhydychen yn y 70au ac mae bellach wedi ymddeol o'i swydd fel dirprwy brifathro. Meddai: "Yn y brifysgol, roedd llawer o fy ffrindiau'n dod o ysgolion cyfun yn Ne Cymru, ond bellach mae hynny'n fwy anghyffredin – er bod llawer o bobl ifanc ddisglair iawn yn yr ardal. Mae myfyrwyr Seren yn gorfod mynd i'r afael â'u pynciau mewn ffyrdd anghyfarwydd, a phan fyddant yn gwneud cais am le mewn prifysgol mewn tua blwyddyn, rydym ni'n gobeithio y byddant yn teimlo'n gyfforddus hyd yn oed yn y sefyllfaoedd mwyaf heriol. Mae'n bwysig argyhoeddi ein myfyrwyr i anelu'n uwch gyda'u canlyniadau Safon Uwch yn ogystal â'r prifysgolion y maent yn eu hystyried."

I ddod o hyd i gydlynnydd canolfan eich ardal chi, ewch i:
www.llyw.cymru/seren

Partneriaethau prifysgolion



"Mae Rhwydwaith Seren yn rhoi cyfle i fyfyrwyr sydd eisoes â sylfaen wych i wneud cais am gyrsiau prifysgol cystadleuol sy'n dewis y myfyrwyr gorau yn unig. Mae'r gweithgareddau'n datblygu hyder a gwydnwch, yn ogystal â gwella gwybodaeth pwnc. Dyma'r rhinweddau y mae tiwtoriaid derbyn yn eu hystyried yn bwysig wrth benderfynu pwy sy'n cael cynnig lle."

Mike Nicholson, Cyfarwyddwr Recriwtio Myfyrwyr a Derbyn, Prifysgol Caerfaddon

"Dewis prifysgol yw un o'r penderfyniadau mwyaf ffurfiannol ym mywyd person ifanc. Mae'n angenrheidiol felly bod myfyrwyr yn gallu derbyn cyngor ac arweiniad perthnasol i'w helpu i wneud y penderfyniad hwn. Nod Seren yw darparu'r gefnogaeth hon, gan ysbrydoli pobl ifanc i gyflawni eu potensial academiaidd a'u hannog i wneud ceisiadau cystadleuol i brifysgolion blaenllaw."

Ruth Meighan, Swyddog Cyswllt Ysgolion, Prifysgol Caerdydd



"Mae gan fyfyrwyr Rhwydwaith Seren fwy na myfyrwyr eraill i'w gynnig wrth wneud cais am le mewn prifysgol. Trwy'r digwyddiadau sy'n cael eu darparu, bydd myfyrwyr yn datblygu gwell dealltwriaeth o bwnc a bydd hyn yn eu galluogi i gwblhau cais gwell i brifysgol."

Anne-Marie Canning, Cyfarwyddwr Ehangu Cyfranogiad, King's College Llundain



EAS 2015/16

Mae mwy na 2000 o fyfyrwyr Safon Uwch bellach yn rhan o Rwydwaith Seren.

Cysylltwch

Os oes gennych unrhyw gwestiwn, boed fawr neu fach, ynglŷn â bod yn rhan o Rwydwaith Seren, siaradwch gyda'ch athrawon neu gyda chydlynnydd eich canolfan. Gallwch ddod o hyd i fanylion cyswllt cydlynnydd eich canolfan chi ar ein gwefan, ynghyd â mwy o wybodaeth am bopeth yn ymwneud â Seren. Ewch i: www.llyw.cymru/seren

Byddem wrth ein bodd yn clywed am eich profiadau ar y rhaglen, yn ogystal â'r hyn rydych chi wedi ei gyflawni.

Rhowch wybod i ni trwy'r cyfryngau cymdeithasol. Ymunwch â'r sgwrs yn:

 facebook.com/serennetwork

 [@Seren_Network](https://twitter.com/Seren_Network) [#serennetwork](https://twitter.com/serennetwork)